



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## **DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU**

---

**TEITL** Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022

**DYDDIAD** 20 Hydref 2022

**Lesley Griffiths AS/MS**

**GAN** Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd  
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Bydd Aelodau o'r Senedd yn dymuno bod yn ymwybodol ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes sydd wedi'i ddatganoli mewn perthynas â Chymru.

Ceisiwyd cytundeb gan y cyn-Weinidog Gwladol dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 i fod yn gymwys mewn perthynas â Phrydain Fawr.

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 19 Hydref gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig drwy arfer pwerau a roddir gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r OS yn diwygio'r pennawd yn Atodiad 2 i Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/2287 a ddargedwir i ddisodli cyfeiriad at "a Member State" gyda chyfeiriad at "Great Britain".

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru. Serch hynny, ystyrir ei bod yn briodol y tro hwn i sylwedd y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru gan nad oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn gydlynol ac yn gyson a bod y rheoliadau ar gael mewn un Offeryn. Rwyf o'r farn nad deddfu ar wahân ar gyfer Cymru fyddai'r ffordd orau o weithredu'r newidiadau angenrheidiol ac na fyddai hynny'n ddefnydd doeth o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau sy'n fân ac yn dechnegol eu natur.